BookTrust Cymru

Amser Rhigwm Mawr Cymru

Big Welsh Rhyme Time

# Mae Odli'n Hwyl! (Abracadabra, tri, dau, un)

gan Sarah King

**Mae odli geiriau'n hwyl a sbri**
**Dewch bawb i odli gyda ni**
**Clap, clap, clap a bloeddio 'Hwrê'**
**Mi wnawn odli dros y lle**

**Abracadabra, tri, dau, un...**
**Newid ddaw i ti dy hun!**

**Rwyt nawr yn llygoden fach lwyd,**
**Yn dawnsio a neidio wrth hela bwyd.**

**Abracadabra, tri, dau, un...**
**Newid arall i ti dy hun!**

**Yn wrach ar ysgub, rwyt nawr yn hedfan**
**Ac yn bwrw hud ym mhobman**

**Abracadabra, tri, dau, un...**
**Newid arall i ti dy hun!**

**Rwyt nawr yn gar, un cyflym coch**
**Yn gwibio ac yn rasio ac yn canu'r gloch**

**Abracadabra, tri, dau, un...**
**Newid arall i ti dy hun!**

**Rwyt fry yn yr awyr ar gwmwl gwyn**
**Dyna bobl yn syllu'n syn**
**Yn bell o danat ar y ddaear**
**Yn eu dillad hynod liwgar**

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

#BwrlwmYRhigwmIBawb
#RhymingFunForEveryone


Darluniau / Illustration ©Sarah King
Rhif Elusen / Charity Number: 313343

BookTrust Cymru

Amser Rhigwm Mawr Cymru

Big Welsh Rhyme Time

# Mae Odli'n Hwyl! (Abracadabra, tri, dau, un)

gan Sarah King

**Abracadabra, tri, dau, un...**
**Newid arall i ti dy hun!**

**Nôl lawr i'r ddaear ac i dref fach glyd**
**Rwyt nawr yn glown mewn syrcas hud!**

**Abracadabra, tri, dau, un...**
**Newid arall i ti dy hun!**

**Jiráff mawr, tal wyt ti yn awr**
**A'th goesau hir yn cwrdd â'r llawr**

**Abracadabra, tri, dau, un...**
**Newid arall i ti dy hun!**

**Rwyt nawr yn swp o sbageti cyrliog**
**Yn edrych mwy fel ieti blewog**

**Abracadabra, tri, dau, un...**
**Newid nôl i ti dy hun!**

**Barddoniaeth, cân a dychymyg**
**Dyna sy'n gwneud Cymru yn arbennig**
**Mae odli geiriau'n hwyl a sbri**
**Abracadabra, un, dau, tri!**

Gwyliwch fideo ategol y rhigwm fan yma **www.booktrust.org.uk/thebigwelshrhymetime**

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

#BwrlwmYRhigwmIBawb
#RhymingFunForEveryone

 Darluniau / Illustration ©Sarah King Rhif Elusen / Charity Number: 313343

# BookTrust Cymru

## Amser Rhigwm Mawr Cymru
## Big Welsh Rhyme Time

### Gweithgaredd Mae Odli'n Hwyl! (Abracadabra, tri, dau, un)

**Dewch i ni Wneud Cymeriad Ffon Lolipop**

**Bydd arnoch angen:**

- Cardbord neu bapur trwchus
- argraffydd
- siswrn
- glud
- ffyn lolipop
- oedolyn i helpu i dorri a gludo





Gallwch dorri o amgylch hwn!

**Instructions:**

1. Argraffwch y taflenni gweithgaredd ar gardbord neu bapur trwchus a gofynnwch i oedolyn am help i dorri o amgylch y lluniau
2. Rhowch lud ar un pen y ffyn lolipop ac wedyn gludwch y lluniau arnyn nhw
3. Defnyddiwch eich cymeriadau ffon lolipop i ddilyn y symudiadau yn y rhigwm. Gallwch hyd yn oed eu defnyddio i greu eich rhigymau a'ch storïau eich hunain
4. Dim argraffydd? Dim problem. Crewch eich cymeriadau eich hunain a rhowch ryddid i'ch dychymyg!

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

**#BwrlwmYRhigwmIBawb**
**#RhymingFunForEveryone**

# BookTrust Cymru

## Amser Rhigwm Mawr Cymru
## Big Welsh Rhyme Time


**Gweithgaredd Mae Odli'n Hwyl! (Abracadabra, tri, dau, un)**

**Dewch i ni Wneud Cymeriad Ffon Lolipop**










Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

**#BwrlwmYRhigwmIBawb**
**#RhymingFunForEveryone**

 Darluniau / Illustration ©Sarah King Rhif Elusen / Charity Number: 313343

# BookTrust Cymru


## Amser Rhigwm Mawr Cymru
## Big Welsh Rhyme Time

**Gweithgaredd Mae Odli'n Hwyl! (Abracadabra, tri, dau, un)**

**Dewch i ni Wneud Cymeriad Ffon Lolipop**









Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

**#BwrlwmYRhigwmIBawb**
**#RhymingFunForEveryone**


Darluniau / Illustration ©Sarah King
Rhif Elusen / Charity Number: 313343